CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher Mehefin 28ain 2017 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Gwydion A Jones

Presennol: Gwyn Williams (Cadeirydd), Diane M Roberts, R Emlyn Williams, Einir Williams, Elen H Edwards, D Gwynfor Davies, Ann O Vaughan, Cyng Garffild L Lewis a'r Clerc

68.1 DATGAN CYSYLLTIAD – mynegodd Einir Williams ddiddordeb yn eitem 7a Materion Cynllunio

68.2 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod blynyddol 22ain Mai a 14eg Mehefin 2017 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu bod yn gywir.

68.3 MATERION YN CODI
68.3.1 MAES CLEDWEN, GWYTHERIN – nid oedd y Clerc wedi derbyn ateb i'n llythyr er iddi gael sgwrs ar y ffôn â swyddog o Gartrefi Conwy. Deellir bod tri thŷ wedi eu gwerthu yng Nghonwy a theimlem yn anfodlon am hyn ac am y diffyg ateb. Cynigiodd y Cynghorydd Garffild Lewis gael gair â swyddog o Gartrefi Conwy.
68.3.2 BLODAU GAN GYNGOR CONWY – roedd blodau wedi eu gosod yn y tybiau yn Llangernyw ac addewid o rai ym Mhandy Tudur a Gwytherin.
68.3.3 ASESIAD RISG – cafwyd copi o Asesiad Risg Ariannol gan Un Llais a phenderfynwyd i'w rannu gyda'r is-bwyllgor ariannol.
68.3.4 CEISIADAU CYNLLUNIO AR LEIN – derbyniwyd ateb gan Paula Jones, Prif Swyddog Cynllunio yn nodi y gellid gyrru copïau papur atom gyda cheisiadau cymhleth ond iddynt gael digon o rybudd.

68.4 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
68.4.1 ARWYDDION DIOGELWCH O'R GOLWG – angen torri o gwmpas arwydd 'oedolyn a phlentyn' ger cyffordd Hendre Ddu ac arwydd 'Give Way' ger Bont Sylltu.
68.4.2 PONTYDD – adroddodd Cyng Garffild Lewis ei fod yn cyfarfod Bryn Shilland o Gyngor Conwy y diwrnod canlynol i drafod pont Afon Dyffryn Gall ger Cartref y Ficerdy. Hefyd roedd wedi cael gwybod gan Gyfoeth Naturiol Cymru bod aderyn wedi nythu dan bont Hendre Ddu ac wedi rhwystro'r gwaith am gyfnod. Adroddodd Gwynfor Davies iddo dderbyn cwyn bod offer amaethyddol wedi methu mynd dros bont Afon Dyffryn Gall yn ddiweddar.

68.5 MATERION CYNLLUNIO
68.5.1 Cais Rhif 0/43937 Gosod 6 caban gwersylla a gwaith datblygu cysylltiedig yn Cefn Ffynnon, Pandy Tudur gan Mr & Mrs S Thomas – cais wedi ei dynnu yn ôl.
68.5.2 Cais Rhif 0/44103 Troi cytiau cŵn yn ystafell wely sbâr ac ystafell hobiau a chodi uchder y to yn Gribin, Llangernyw gan Mrs Katharine Jolly – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
68.5.3 Cais Rhif 0/44112 Dymchwel estyniadau to fflat i gefn yr adeilad (cymeradwyaeth i'w ddymchwel) yn Bridge Inn, Llangernyw gan Mr Glyn Davies – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.

68.6 DATGANIAD CYFRIFYDDU 2016-17 A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL – cyflwynwyd y cyfrifon wedi eu harchwilio yn fewnol a PHENDERFYNWYD i'w derbyn a'u harwyddo.

68.7 SWYDD Y CLERC – gadawodd y Clerc y cyfarfod. Mynegodd Einir Williams gysylltiad â'r eitem. Roedd Luned Evans, Un Llais am dderbyn cyngor cyfreithiol ynglŷn a chyflog Clerc newydd. Penderfynwyd i edrych ar gyflog y Clerc dros y ddwy/dair blynedd diwethaf a'i godi yn unol â graddfa cyflog NJC a thalu ad-daliad os oedd angen.

68.8 SEDDAU GWAG AR Y CYNGOR – cafwyd 3 ymgeisydd i Ward Llangernyw a PHENDERFYNWYD i gael pleidlais gudd. Penderfynwyd i gyfethol Clwyd Roberts a Gerallt Evans ar y Cyngor.

68.9 ARWYDDION TWRISTIAETH – oherwydd bod cost yr arwyddion mor uchel trafodwyd a oedd gwir eu hangen ond hefyd i holi a oedd modd cael grantiau tuag at eu prynu e.e. gan Croeso Cymru, Adran Twristiaeth Conwy. Hefyd i holi Ymddiriedolaeth Coetiroedd a oedd ganddynt arwydd coeden ywen.

68.10 TOILEDAU – y Clerc i holi'r cyfreithwyr ynglyn â throsglwyddo'r toiledau i Fenter Bro Cernyw a gobeithio agor y toiledau ym mis Medi. Angen trosglwyddo taliadau i Fenter Bro Cernyw erbyn y cyfarfod nesaf.

68.11 CYNLLUN NYTH CARTREFI CLYD – angen rhoi hwn yn y Cylchlythyr nesaf.

68.12 GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT GOGLEDD CYMRU A MEDDYGON TEULU – y Clerc i anfon rhain ar ebost i aelodau.

68.13 MATERION LLEOL
68.13.1 Parc chwarae Gwytherin heb ei dorri yn iawn a'r clawdd wrth yr afon wedi tyfu, y ffensys a'r mieri yn beryglus, angen peipio dan y bont, y dorlan yn syrthio i'r afon.
68.13.2 Parc chwarae Pandy Tudur heb ei dorri yn iawn chwaith.
68.13.3 Angen strimio pentrefi Pandy Tudur a Gwytherin.
68.13.4 Panel Taith Pererinion Pandy Tudur heb ei gwblhau – y Clerc wedi bod mewn cysylltiad a'r gwaith i fod i'w gwblhau yn fuan.
68.13.5 Tynnodd Cyng Garffild Lewis ein sylw at Arolwg y Comisiwn Ffiniau yn ardal Cyngor B S Conwy lle mae'n bosib y bydd colli seddau cefn gwlad. Penderfynwyd i wahodd swyddog i'r cyfarfod nesaf i drafod y mater.
68.13.6 Deellir bod gwair yn cael ei dorri a'i adael yn bentwr ger carreg fedd ym Mynwent Garnedd. Penderfynwyd i ofyn i Gyngor Conwy am fin sbwriel yno.
68.13.7 Angen gofyn eto am arwyddion 20 mya ger Ysgol Bro Cernyw.
68.13.8 Coeden rhosod yn gwyro dros y llwybr yn Ty'r Gof, Llangernyw
68.13.9 Problem baw ci yn stad Glan Collen – problem gynyddol yn Llangernyw.
68.13.10 Angen arwydd newydd Dim Cŵn ym mharc chwarae Llangernyw.
68.13.11 Gwrych wedi gordyfu ar gyffordd Bod Gynwch, Llangernyw.
68.13.12 Cyfarfod nesaf – Awst 2il 2017.
68.13.13 Nid oedd angen strimio Mynwent Gwytherin, angen gofyn i'r contractwr a yw yn gymwys i chwistrellu.

68.14 BILIAU

D Evans (Trydydd Toriad Mynwentydd a strimio Gwytherin)	£530
Un Llais Cymru (Cwrs Cyllid)	£20
Hywel Evans (Cylchlythyr)	£7

Daeth y cyfarfod i ben am 10 o'r gloch.

Cymeradwywyd y Cofnodion ...Einir Williams..... Dyddiad ....2/8/17.....

Community Council Meeting was held on Wednesday 28th June 2017 at 7.30 pm at Canolfan Bro Cernyw

Apologies: Gwydion A Jones

Present: Gwyn Williams (Chair), Diane M Roberts, R Emlyn Williams, Einir Williams, Elen H. Edwards, D Gwynfor Davies, Ann O Vaughan, Cllr Garffild L Lewis and Clerk

68.1 DECLARATION - Einir Williams expressed interest in item 7a Planning Issues

68.2 MINUTES – May 22nd AGM and 14th June, 2017 meeting minutes were looked at and RESOLVED unanimously that they are correct.

68.3 MATTERS ARISING
68.3.1 MAES CLEDWEN, GWYTHERIN – Clerk still not received a reply to our letter but has had a telephone conversation with an officer of Cartrefi Conwy. It is understood that three houses were sold in Conwy and we felt unhappy about this and about the lack of answers. Councilor Garffild Lewis offered to talk to an officer of Cartrefi Conwy.
68.3.2 COUNCIL CONWY FLOWERS - the flowers have been placed in the tubs in Llangernyw and the promise of some at Pandy Tudur and Gwytherin.
68.3.3 RISK ASSESSMENT - received a copy of a Financial Risk Assessment by One Voice and decided to share it with the financial subcommittee.
68.3.4 PLANNING APPLICATIONS ON LINE - received a reply from Paula Jones, Chief Planning Officer saying they could send paper copies to us with complex applications if they had plenty of warning.

68.4 ENVIRONMENTAL AND HIGHWAY ISSUES
68.4.1 ROAD SAFETY SIGNS - need to cut around the sign 'adult and child' near Hendre Ddu and a 'Give Way' sign near Bont Sylltu.
68.4.2 BRIDGES - Cllr Garffild Lewis reported that he met Bryn Shilland of Conwy Council the following day to discuss the bridge near The Old Vicarage Nursing Home. He had also been informed by Natural Resources Wales that there is a bird nesting under the Hendre Ddu bridge delaying work. Gwynfor Davies reported that he had received a complaint that an agricultural machine failed to cross the bridge near the Home recently.

68.5 PLANNING MATTERS
68.5.1 Application No. 0/43937 Installation of 6 camping cabins and associated development in Cefn Ffynnon, Pandy Tudur by Mr & Mrs S Thomas - application has been withdrawn.
68.5.2 Application No. 0/44103 Turns kennel into a spare bedroom and hobby room and raise the height of the roof at Gribin, Llangernyw by Mrs. Katharine Jolly - RESOLVED unanimously to support the application.
68.5.3 Application No. 0/44112 Demolition of flat roof extensions to the back of the building (approval for demolition) in Bridge Inn, Llangernyw by Mr Glyn Davies - RESOLVED unanimously to support the application.

68.6 STATEMENT OF ACCOUNTING AND ANNUAL GOVERNANCE STATEMENT 2016-17 - the audited accounts were presented following internal audit and RESOLVED to accept and they were signed.

68.7 CLERK POST - the Clerk left the meeting. Einir Williams expressed interest in the item. Luned Evans, One Voice was taking legal advice regarding new Clerk salary. Decided to look at the Clerk's salary over the last two / three years in accordance with NJC salary scale and pay a refund if necessary.

68.8 EMPTY SEATS ON COUNCIL - there were 3 candidates for the Llangernyw Ward and RESOLVED to have a secret ballot. It was decided to co-opt Clwyd Roberts and Gerallt Evans on the Council.

68.9 TOURISM SIGNS - because of the high cost of the signs discussed and decided to inquire whether it was possible to get grants to buy them eg Visit Wales, the Tourism Department Conwy. Woodland Trust also asked whether they had a yew tree sign.

68.10 TOILET - the Clerk to check with lawyers on the transfer of toilets to Menter Bro Cernyw and hope to open the toilets in September. Need to prepare transfer payments to Menter Bro Cernyw for the next meeting.

68.11 NEST HOME SCHEME - this needs to be put in the next Newsletter.

68.12 CARE SERVICES AND WELFARE IMPROVEMENT AND WALES GP - the Clerk to send these via email to members.

68.13 LOCAL ISSUES
68.13.1 Gwytherin Play Area not cut properly and the hedge near the river has grown, the fences and bramble dangerous, piping needed under the bridge, and the bank falling into the river.
68.13.2 Pandy Tudur Play Area not cut properly either.
68.13.3 Pandy Tudur and Gwytherin villages need to be strimmed.
68.13.4 Pilgrims Trail panel at Pandy Tudur incomplete - the Clerk has been in contact and work due to be completed shortly.
68.13.5 Coun Garffild Lewis drew our attention to Boundary Commission survey of Conwy C B Council area where they may be losing seats in rural areas. Decided to invite an official to the next meeting to discuss the matter.
68.13.6 It is understood that the grass is being cut and left in a pile near a headstone in the Garnedd cemetery. Decided to ask Conwy Council for a dustbin there.
68.13.7 Need to ask again for signs of 20 mph near Ysgol Bro Cernyw.
68.13.8 Rose shrub overhanging the path by Tŷ'r Gof, Llangernyw

68.13.9 Problem of dog fouling in Glan Collen estate - a growing problem in Llangernyw.
68.13.10 Need to replace the No Dogs sign in the playing area in Llangernyw.
68.13.11 Overgrown hedge at the Bod Gynwch, Llangernyw junction.
68.13.12 Next meeting - 2nd August 2017.
68.13.13 Gwytherin Cemetery has been strimmed although we did not ask, need to ask the contractor if he is eligible to spray.

68.14 BILLS
D Evans (Third Cut Cemeteries and strimmed Gwytherin) £ 530
One Voice Wales (Finance Course) £ 20
Hywel Evans (Newsletter) £ 7

The meeting ended at 10 o'clock.

Approved the Minutes .....Einir Williams..... Date ...2/8/17.....